


Deall anghenion ieithyddol

Image not found or type unknown



Cyhoeddwyd gyntaf: 10 October 2018

Diweddariad olaf: 27 January 2025

Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.

Ewch i <https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau-canllawiau/gwella-gofal-a-chymorth/pobl-â-dementia/deall-anghenion-ieithyddol> am y fersiwn diweddaraf.

Yng Nghymru, mae'n rhaid i awdurdodau lleol a darparwyr gofal gynneg a darparu gwasanaethau Cymraeg i'r un safon â gwasanaethau Saesneg.

Gwneud y Cynnig Rhagweithiol

Gweld trawsgrifiad

GWEITHIWR GOFAL:

[00:00:00] Mae *hiraeth* mor ofnadwy o bwysig i'r Cymry, a – sut alla i ddweud hyn – pwysigrwydd siarad â phobl am ble roedden nhw'n byw efallai.

[00:00:14] Efallai eu bod nhw wedi byw yn yr un tŷ am flynyddoedd lawer ac os oes lluniau yn eu hystafell, gallwch ddechrau sgwrs â nhw am sut le oedd eu cartref.

[00:00:25] Yr ardd, oedden nhw'n hoff o'r ardd? Blodau?

[00:00:29] Y manion hynny.

[00:00:32] Ond mae *hiraeth* yn beth ofnadwy.

[00:00:34] Allwn ni ddim gorbwysleisio pwysigrwydd y Gymraeg.

[00:00:39] Pan ddechreuwch chi siarad Cymraeg â rhywun, mae'n creu dolen gyswllt yn syth.

[00:00:48] Maen nhw'n fwy agored, ac mae pethau'n haws o lawer.

[00:00:51] Dwi wedi gweithio gyda gofalcwyr eraill Saesneg eu hiaith a bydd pwy bynnag ry'ch chi'n ei helpu ac yn ei gefnogi'n gwybod yn reddfoll pwy sy'n siarad Cymraeg.

[00:01:08] Mae'n haws o lawer cyd-dynnu.

[00:01:11] Mae pethau gymaint yn haws o wybod bod rhywun yn siarad Cymraeg.

[00:01:17] Mae'n creu cyswllt yn syth ac mae pethau'n haws o lawer.

[00:01:21] Mae pethau'n agosach, fel un teulu mawr Cymraeg, ac mae hynny'n hynod bwysig.

[00:01:30] Mae'n bwysig iawn cynnig dewisiadau i bobl a gofyn, er enghraifft, sut maen nhw'n hoffi eu te -

[00:01:40] Ydyn nhw'n cymryd siwgr. "Llaeth neu siwgr yn eich te?"

[00:01:48] "Pa mor gryf?"

[00:01:52] Cynnig dewis o brydau bwyd, llawer o bethau bach gwahanol.

[00:02:02] "Beth y'ch chi'n mo'yn wisgo y tro 'ma?" Dewis beth i'w wisgo, rhywbeth addas ar gyfer y tywydd.

[00:02:12] A chynnig dewis bob amser. Mynd at y wardrob efallai a meddwl, "Dewis, dewis beth mae'n mo'yn wisgo".

[00:02:23] Cynnig dewis, efallai drwy roi'r dillad i hongian er mwyn i'r person gael pwyntio, a dweud, "Ie, dewis da".

Mae'r 'Cynnig Rhagweithiol' yn golygu bod staff yn darparu gwasanaeth yn Gymraeg heb fod rhywun yn gorfod gofyn amdano. Gallai hyn olygu ateb y ffôn yn Gymraeg neu gynnal asesiad gofal llawn yn Gymraeg.

Pecyn Gwybodaeth Gwireddu'r 'Cynnig Rhagweithiol' - Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol

PDF 1MB

Beth bynnag fo'ch gallu yn y Gymraeg, os ydych yn rhugl neu ddim yn gallu siarad unrhyw Gymraeg, rhan fawr o'r Cynnig Rhagweithiol yw bod yn sensitif i iaith. Mae hyn yn golygu gofyn i ddechrau i'r bobl rydych chi'n eu cefnogi a ydynt yn siarad Cymraeg, ac, os ydynt, ceisio defnyddio ymadroddion Cymraeg wrth siarad gyda nhw. Byddai hyd yn oed dweud 'bore da' neu ofyn a hoffon nhw baned yn Gymraeg yn gwneud gwahaniaeth mawr.

Mae bod yn sensitif i iaith yn bwysig iawn ym maes gofal dementia ac yn effeithio ar bobl sy'n siarad iaith heblaw Cymraeg neu Saesneg. Mae yn effeithio ar bobl sy'n defnyddio iaith arwyddion Prydain hefyd. Un o nodweddion dementia yw gostyngiad cynyddol yn y gallu i fynegi syniadau neu eiriau, a deall ystyr geiriau llafar ac ysgrifenedig. Os mai Saesneg yw ail iaith y person, efallai y bydd yn cymysgu rhwng Saesneg â'u mamiaith i ddechrau ac yna colli'r gallu i siarad Saesneg yn llwyr, gan ei gwneud yn anodd iddynt gyfathrebu â gweithwyr cymorth a pherthnasau iau nad ydynt yn siarad eu hiaith.

[Ap Gofalu Trwy'r Gymraeg \(Android\)](#)

[Ap Gofalu Trwy'r Gymraeg \(Apple\)](#)

Bod yn sensitif i iaith

Mae bod yn sensitif i iaith yn bwysig iawn ym maes gofal dementia ac yn effeithio ar bobl sy'n siarad iaith heblaw Cymraeg neu Saesneg. Mae yn

effeithio ar bobl sy'n defnyddio iaith arwyddion Prydain hefyd. Un o nodweddion dementia yw gostyngiad cynyddol yn y gallu i fynegi syniadau neu eiriau, a deall ystyr geiriau llafar ac ysgrifenedig. Os mai Saesneg yw ail iaith y person, efallai y bydd yn cymysgu rhwng Saesneg â'u mamiaith i ddechrau ac yna colli'r gallu i siarad Saesneg yn llwyr, gan ei gwneud yn anodd iddynt gyfathrebu â gweithwyr cymorth a pherthnasau iau nad ydynt yn siarad eu hiaith.

Dysgu Cymraeg ar-lein: cwrs am ddim i weithwyr gofal cymdeithasol

Mae'r Ganolfan Genedlaethol Dysgu Cymraeg wedi cynhyrchu [cwrs 10 awr am ddim i gael blas ar ddysgu Cymraeg](#). Mae hwn yn cynnwys adran ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol, lle gallwch ddysgu:

- gofyn i bobl sut maen nhw'n teimlo
- rhannau o'r corff
- sut i ofyn a yw person mewn poen neu'n teimlo'n sâl
- gofyn ble mae eu sbectol, ffon gerdded, moddion ac ati.

Dyma sut mae cofrestru ar gyfer y cwrs:

- agor y ddolen uchod. Mae'n gweithio orau gyda Google Chrome neu fersiwn ddiweddaraf Internet Explorer
- clicio ar y botwm 'Dechrau' ar y cwrs rydych eisiau ei gychwyn
- clicio ar fotwm 'Creu Cyfrif'
- nodi eich manylion a'ch cyfeiriad
- creu manylion mewngofnodi a derbyn y termau ac amodau cyn creu cyfrif

- o dan ‘Dechrau’ bydd angen dewis ‘Gofal Cymdeithasol Cymru Cymraeg Gwaith’ fel eich cyflogwr
- mae’n bosibl y bydd angen mewngofnodi eto er mwyn dewis eich cyflogwr
- ar ôl i chi ddewis eich cyflogwyr, byddwch yn gallu cychwyn y cwrs
- byddwch yn derbyn e-bost gyda’r ddolen i gychwyn y cwrs.

Adnoddau defnyddiol

Dysgwch fwy am anghenion ieithyddol pobl gyda dementia.

[Mwy na geiriau... adnoddau \(strategaeth Llywodraeth Cymru i gryfhau gwasanaethau Cymraeg ym maes iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol\)](#)

[Sgiliau iaith Gymraeg eich gweithlu - eu defnyddio yn effeithiol \(Canllaw Cyflym\)](#)

PDF 332KB

[Sgiliau iaith Gymraeg eich gweithlu - eu defnyddio yn effeithiol \(Fersiwn Lawn\)](#)

PDF 1MB

Cân y Gân - rhestr chwarae a chryno ddisg o gerddoriaeth Gymraeg ar gyfer cartrefi gofal a phobl sy'n rhoi gofal i siaradwyr Cymraeg ond heb wybod pa ganeuon i'w chwarae.

Dolenni ymchwil

Gwellwch eich ymarfer drwy ddefnyddio canlyniadau'r ymchwil diweddaraf.

[Chwilio profiad pobl Byddar o gefnogi aelod teulu Byddar sy'n byw gyda dementia \(Saesneg yn unig\)](#)

PDF 142KB

[Mynediad i wasanaethau dementia i breswylwyr dwyieithog \(Cymraeg a Saesneg\) - Brîff ymchwil](#)

[Safbwynt byd eang a chenedlaethol ar ddementia - brîff ymchwil](#)

[Profiad Siaradwyr Cymraeg o'r Gwasanaethau Iechyd a Gofal](#)

Eisiau eich adborth

Helpwch ni i wella'r adnodd dementia ar gyfer gweithwyr gofal proffesiynol drwy gael dweud eich dweud amdano yn ein [harolwg byr pedair cwestiwn](#).